

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 4)**

Y BIL IECHYD MEDDWL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd Meddwl ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2025 a dechreuodd y cyfnod Pwyllgor ar 10 Mehefin.
3. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r Bil ar 24 Chwefror 2025 i ymgorffori'r gwelliannau a wnaed yn ystod y cyfnod Pwyllgor. Gellir dod o hyd iddo yn: Y Bil Iechyd Meddwl [Tŷ'r Arglwyddi]. [Mae'r holl gyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn gyfeiriadau at y darpariaethau hynny yn yr argraffiad newydd o'r Bil.]

Amcanion Polisi

4. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn parhau fel y'u nodwyd yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 20 Tachwedd 2024.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
6. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, sy'n parhau'n gywir.
7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cyswllt rheolaidd ynghylch y gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.

Y diweddaraaf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r trydydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol

8. Cafodd nifer o welliannau nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth eu derbyn ar 31 Mawrth 2025, yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Nodir effaith y gwelliannau hynny ym mharagraff 13.

9. O ganlyniad, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 4 Mehefin 2025 yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i wrthdroi'r gwelliannau nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth. Roeddent yn cynnwys gwelliannau i'r cymalau canlynol:

- Cymal 5 – Y seiliau dros gadw (gwelliannau 26, 27, 28 a 29)
- Cymal 6 – Y seiliau dros orchmynion triniaeth gymunedol (gwelliant 30)
- Cymal 35 – Canfod profiadau cleifion o driniaeth ysbyty, a dysgu ohonynt (gwelliant 31)
- Cymal 50 – Symud cleifion gan bersonau awdurdodedig (gwelliant 36)
- Atodlen 2 – Person enwebedig (gwelliannau 40 a 41)

10. Roedd gwelliannau eraill a gyflwynwyd ar 4 Mehefin 2025 yn cynnwys gwelliannau i'r cymalau canlynol:

- Cymal 45 – Dogfennau dewis ymlaen llaw (gwelliannau 34 a 35)
- Atodlen 3 – Eiriolwyr iechedd meddwl annibynnol (gwelliant 43)

11. Yn ogystal â'r gwelliannau a restrir uchod, gosodwyd gwelliant bach a thechnegol i gymal 30 (Cyfnodau ar gyfer ceisiadau tribiwnlys) ar 14 Ebrill 2025. Cytunodd Tŷ'r Arglwyddi ar y gwelliant hwn yn Nhrydydd Darlleniad y Bil ar 23 Ebrill, ond mae wedi cael ei grwpio gyda'r grŵp mwy o welliannau sy'n cael eu cyflwyno yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

12. Yn ogystal â'r cymalau yr argymhellais fod angen cydsyniad ar eu cyfer yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf ac yn y memoranda atodol blaenorol, rwyf i o'r farn bod angen memorandwm atodol mewn perthynas â'r gwelliannau a ddisgrifir isod.

13. Y grŵp cyntaf o'r rhain yw gwelliannau'r Llywodraeth sy'n gwrthdroi'r gwelliannau nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth:

i. Cymal 5 – Y seiliau dros gadw

Mae cymal 5 yn mewnosod darpariaethau, sy'n diwygio'r prawf ynghylch a yw person i gael ei gadw, yn adrannau 2, 3 a 5 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983").

Cafodd y gwelliannau nad ydynt yn welliannau Llywodraeth y DU i gymal 5 yr effeithiau canlynol:

- a. diwygio'r prawf ar gyfer derbyn am asesiad (adran 2) fel bod rhaid asesu'r risg o niwed yn digwydd "unless the patient is so detained

by a constable or authorised person" ("oni bai bod y claf yn cael ei gadw gan gwnstabl neu berson awdurdodedig") pan allai niwed difrifol gael ei achosi i iechyd neu ddiogelwch y claf neu berson arall ac y dylid cadw'r claf o ystyried natur, gradd a thebygolrwydd y niwed.

- b. diwygio'r prawf ar gyfer derbyn am driniaeth (adran 3) fel bod rhaid asesu'r risg o niwed yn digwydd "unless the patient is so detained by a constable or authorised person" ("oni bai bod y claf yn cael ei gadw gan gwnstabl neu berson awdurdodedig"):
 - pan allai niwed difrifol gael ei achosi i iechyd neu ddiogelwch y claf neu berson arall oni bai bod y claf yn cael triniaeth feddygol,
 - pan fo'n angenrheidiol, o ystyried natur, gradd a thebygolrwydd y niwed, i'r claf gael triniaeth feddygol,
 - pan na ellir darparu'r driniaeth angenrheidiol oni bai bod y claf yn cael ei gadw o dan y Ddeddf hon, a
 - phan fo triniaeth feddygol briodol ar gael i'r claf.
- c. diwygio'r prawf ar gyfer nyrs i gadw claf sydd eisoes yn glaf mewnol sy'n cael triniaeth ar gyfer anhwylder meddwl am hyd at 6 awr yn absenoldeb y math angenrheidiol o ymarferydd / clinigydd i wneud adroddiad y dylai'r person gael ei dderbyn i'r ysbyty o dan Ran 2 (adran 5), ac mae'n darparu ar gyfer cynnwys cwnstabl neu berson awdurdodedig i atal person rhag gadael yr ysbyty ar unwaith o dan amgylchiadau pan fo'r person yn dioddef o anhwylder meddwl i'r fath raddau y gallai niwed difrifol gael ei achosi i iechyd neu ddiogelwch y claf neu berson arall oni bai bod y claf yn cael ei atal ar unwaith.
- d. mewnosod diffiniad newydd o "authorised person" ("person awdurdodedig") yn adran 145(1) o Ddeddf 1983: "a medical practitioner, approved mental health professional, mental health nurse or doctor, or a person of description specified in regulations made by the Secretary of State, who has been trained and equipped to carry out detentions under this Act and who would not be put at necessary risk by performing those functions."

Diben datganedig y gwelliannau hyn oedd darparu gwell ymateb rhyngasiantaethol a dileu'r angen am bresenoldeb yr heddlu mewn digwyddiadau iechyd meddwl yn absenoldeb unrhyw risg.

Mae gwelliannau 26-29 gan Lywodraeth y DU wedi'u cynllunio i gael gwared ar y gwelliannau hyn nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth o'r Bil. Mae'r gwelliannau hyn yn gysylltiedig â gwelliant 36 a drafodir isod.

Un o'r profion ar gyfer cadw person o dan y ddeddfwriaeth iechyd meddwl yw y gallai niwed gael ei achosi, neu na fyddai triniaeth yn bosibl, heb ei gadw.

Mae gwelliannau 26, 27, 28 a 29 (a 36 mewn perthynas â chymal 50) yn dileu'r geiriad sy'n nodi bod rhaid i'r trefniant cadw sy'n angenrheidiol fod yn drefniant cadw gan gwnstabl neu berson awdurdodedig arall (fel y'i diffinnir).

ii. **Cymal 6 – Y seiliau dros orchmynion triniaeth gymunedol**

Byddai'r gwelliant nad yw'n welliant Llywodraeth y DU i gymal 6 yn mewnosod darpariaethau yn adran 17B o Ddeddf 1983 (sy'n ymwneud â'r amodau a bennir gan y gorchmyn triniaeth gymunedol). Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r clinigydd cyfrifol sicrhau bod gorchmynion triniaeth gymunedol yn cyd-fynd â'r cod ymarfer; yn cyfyngu hyd diodyn gorchmynion o'r fath i 12 mis; yn ei gwneud yn ofynnol bod proses adolygu strwythuredig ar gyfer estyniadau; yn gorfodi adolygiadau chwe mis ar gyfer gorchmynion estynedig; ac yn atgyfnerthu proses lle mae gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn ymgynghori â chleifion ac yn eu goruchwyllo. Gwneir darpariaeth i dribiwnlys argymhell bod y clinigydd cyfrifol yn ystyried a ddylid estyn, amrywio neu derfynu hyd ac amodau'r gorchmyn triniaeth gymunedol.

Mae gwelliant 30 gan Lywodraeth y DU bellach yn ceisio cael gwared ar y gwelliant hwn nad yw'n welliant y Llywodraeth o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn dileu gwahanol welliannau sy'n ymwneud â hyd gorchmynion triniaeth gymunedol a'r gwaith o'u hadolygu.

iii. **Cymal 35 – Canfod profiadau cleifion o driniaeth ysbyty, a dysgu ohonynt**

Mae'r gwelliant nad yw'n welliant Llywodraeth y DU i gymal 35 yn gwneud darpariaeth i fewnosod adran newydd ar ôl adran 23 (rhyddhau cleifion) o Ddeddf 1983. Effaith y gwelliant yw bod rhaid i glaf sydd wedi'i gadw o dan Ran 2 o Ddeddf 1983 gael cynnig ymgynghoriad ag eiriolwr iechyd meddwl annibynnol o fewn 30 diwrnod i'w ryddhau i adolygu ei brofiadau o driniaeth ysbyty. Llunnir adroddiad gan yr eiriolwr iechyd meddwl annibynnol mewn partneriaeth â'r claf a chaiff yr adroddiad hwn ei ddarparu i reolwyr ysbytai o fewn 14 diwrnod i'w gwblhau. Yna, rhaid i reolwyr ysbytai gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r hyn y maent wedi'i ddysgu o brofiadau cleifion a'r camau y maent wedi'u cymryd.

Diben datganedig y gwelliant hwn yw gorfodi'r broses o gael ôl-drafodaeth â chleifion iechyd meddwl ar ôl iddynt adael yr ysbyty.

Mae gwelliant 31 gan Lywodraeth y DU yn ceisio gwrthdroi'r ddarpariaeth hon, fel y byddai cymal 35 yn cael ei ddileu.

iv. **Cymal 50 – Symud cleifion gan bersonau awdurdodedig**

Roedd gwelliant arall nad yw'n welliant Llywodraeth y DU yn darparu ar gyfer mewnosod adran newydd ar ôl cymal 47, a ddaeth yn gymal 50 yn fersiwn y Trydydd Darlleniad o'r Bil.

Mae cymal 50 yn diwygio adran 135 (gwarant i chwilio am gleifion a symud cleifion) o Ddeddf 1983 i gynnwys darpariaeth y gall Ustus Heddwch ddyroddi gwarant i "authorised person" ("person awdurdodedig") (yn ogystal â gallu dyroddi un i gwnstabl), i symud person i le diogel, os oes angen drwy rym, gyda'r bwriad o wneud cais o dan Ran 2 o Ddeddf 1983, neu drefniant arall ar gyfer ei driniaeth neu ei ofal.

Mae cymal 50 hefyd yn diwygio adran 136 (symud etc personau ag anhwylder meddwl heb warant) o Ddeddf 1983 er mwyn galluogi "authorised person" ("person awdurdodedig") (yn ogystal â chwnstabl) i symud person yr ymddengys ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl i le diogel os oes angen gwneud hynny er budd y person hwnnw neu er mwyn amddiffyn personau eraill.

Diben datganedig gwelliant 50 yw darparu gwell ymateb rhyngasiantaethol a dileu'r angen am bresenoldeb yr heddlu mewn digwyddiadau iechyd meddwl yn absenoldeb unrhyw risg.

Mae gwelliant 36 gan Lywodraeth y DU bellach yn ceisio cael gwared ar gymal 50 o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn gysylltiedig â gwelliannau 26, 27, 28 a 29.

v. Atodlen 2 – Person enwebedig

Mae'r gwelliant nad yw'n welliant Llywodraeth y DU i Atodlen 2 yn diwygio paragraff 11 o Atodlen newydd A1 a fewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil (sydd i'w mewnosod cyn Atodlen 1 i Ddeddf 1983).

Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth i'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy benodi un o ystod o unigolion (ac mae'n darparu ar gyfer sut i ddewis rhyngddynt rhag ofn bod mwy nag un person a allai gael ei benodi) yn berson enwebedig claf o dan amgylchiadau pan fo'r claf o dan 16 oed ac nad oes gan awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant am y claf.

Mae gwelliannau 40 a 41 gan Lywodraeth y DU yn ceisio gwrthdroi'r ddarpariaeth hon a rhoi darpariaeth newydd yn ei lle.

Mae gwelliant 40 yn diwygio'r ddarpariaeth i ddileu'r is-baragraffau (3) i (5) presennol, gan roi is-baragraff (3) newydd yn eu lle fel a ganlyn:

"(3) If no local authority has parental responsibility for the relevant patient but there are one or more other persons who have parental responsibility and who are willing to act as the nominated person, approved mental health professional must appoint one of them."

Mae gwelliant 41 yn ganlyniadol i welliant 40, sy'n diweddarau'r croesgyfeiriad at yr is-baragraff perthnasol (h.y. is-baragraff (3)).

14. Mae tri gwelliant arall gan y Llywodraeth y mae angen cydsyniad ar eu cyfer hefyd.

vi. Cymal 45 – Dogfennau dewis ymlaen llaw

Mae cymal 45 yn mewnosod adran 130M (dogfennau dewis ymlaen llaw: Lloegr) ac adran 130N (dogfennau dewis ymlaen llaw: Cymru) yn Neddf 1983. Bydd yr adrannau newydd hyn yn gosod dyletswydd ar GIG Lloegr a Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr, a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, i wneud trefniadau sy'n briodol yn eu barn hwy ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth ar gael am ddogfennau dewis ymlaen llaw yn ogystal â helpu'r bobl hynny sy'n briodol yn eu barn hwy i greu dogfennau dewis ymlaen llaw ar eu cyfer.

Nod datganedig y cymal yw gwella dewis ac ymreolaeth cleifion. Mae cyflwyno dogfennau dewis ymlaen llaw statudol yn rhoi cyfle i berson sydd â salwch meddwl difrifol nodi ei ddymuniadau, ei deimladau, ei gredoau a'i werthoedd mewn dogfen y gellir ei defnyddio i lywio penderfyniadau os, yn y dyfodol, nad oes ganddo'r galluedd neu nad yw'n ddigon da i fynegi'r pethau hynny ei hun.

Mae gwelliannau 34 a 35 gan Lywodraeth y DU yn gwneud diwygiadau pellach i adran newydd 130M (ar gyfer Lloegr) ac adran newydd 130N (ar gyfer Cymru). Yng nghyd-destun Cymru, mae'r diwygiadau yn darparu bod rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer dwyn gwybodaeth a chymorth sydd ar gael o dan adran newydd 130N i sylw pobl sy'n briodol yn eu barn hwy, ac yn gosod gofynion pellach ar Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â'u dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael am ddogfennau dewis ymlaen llaw ac i helpu pobl i wneud dogfennau dewis ymlaen llaw.

Mae angen cydsyniad yn rhannol ar gyfer y gwelliannau hyn – h.y. dim ond mewn perthynas â newidiadau i adran newydd 130N, sy'n gymwys i Gymru.

vii. Atodlen 3 – Eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol

Mae'r gwelliant hwn (gwelliant 43) yn diwygio Atodlen 3 i'r Bil, i ddarparu bod adran 130J o Ddeddf 1983 hefyd yn cael ei diwygio (h.y. y diffiniad o glaf anffurfiol cymwys yng Nghymru).

Mewnosodwyd y diffiniad o glaf anffurfiol cymwys yng Nghymru yn adran 130J o Ddeddf 1983 gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Bwriad y gwelliant yw ehangu cwmpas yr eithriad i eithrio'r rhai sy'n cael eu cadw o dan unrhyw ddeddfwriaeth neu yn rhinwedd gorchymyn llys (yn hytrach na dim ond y rhai sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae'n gwneud hyn drwy roi yn lle paragraff (c) y geiriau a ganlyn "the patient is not liable to be detained under this Act or any other legislation or by virtue of a court order".

viii. Cymal 30 – Cyfnodau ar gyfer ceisiadau tribiwnlys

Mae cymal 30(1) yn diwygio'r cyfnodau pan gaiff cleifion sifil wneud cais i'r tribiwnlys iechyd meddwl o dan adran 66 o Ddeddf 1983, gan roi mwy o gyfleoedd i gleifion wneud ceisiadau i'r tribiwnlys.

Cyflwynwyd gwelliant ar 14 Ebrill i ddiwygio cymal 30(1) i ddiwygio hefyd yr amserlen yn adran 66(2)(e) o Ddeddf 1983 – gan leihau'r amserlen a bennir yno o 6 mis i 3 mis. Mae'r ddarpariaeth honno'n gymwys mewn perthynas â chlaf a drosglwyddir o warcheidiaeth i ysbyty yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 19 o Ddeddf 1983.

Mae'r gwelliant yn ganlyniadol i gymal 29(2) o'r Bil ac mae'n newid y cyfnod y caniateir gwneud cais i'r tribiwnlys pan fo claf yn cael ei drosglwyddo o warcheidiaeth i ysbyty i gysoni'r cyfnod hwnnw â'r cyfnod cadw cychwynnol mewn perthynas â'r claf (y mae cymal 29 yn ei newid o 6 mis i 3 mis).

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

15. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer pob un o'r gwelliannau a ddisgrifir uchod.
16. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau i'r darpariaethau a restrir ym mharagraffau 8 i 14 yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd eu bod yn rhoi sylw i fater datganoledig, sef iechyd y cyhoedd. Yn unol â Rheol Sefydlog 29 felly, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Iechyd Meddwl

17. Yn fy memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol a'r memoranda atodol dilynol, nodais fy rhesymau dros ddod i'r casgliad y dylai'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru gael eu gwneud drwy'r Bil Iechyd Meddwl. Yn fy marn i, mae'r rhesymau hyn yn parhau i fod yn berthnasol, ac maent hefyd yn berthnasol i'r darpariaethau newydd sy'n cael eu cynnig. Rwy'n eu hailddatgan isod, er hwylustod cyfeirio.
18. Rwy'n cefnogi'r diwygiadau hyn a fydd yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth gwell i gleifion, yn ogystal â sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chymorth i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau'r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.
19. Ceir llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad.
20. At hynny, mae'r cyfnodau cadw a'r hawliau i wneud cais i'r tribiwnlys yn fesurau diogelu allweddol o ran amddiffyn hawliau unigolion sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1983. Hoffwn felly achub ar y cyfle hwn i roi'r newidiadau hynny ar waith yma yng Nghymru yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hawliau unigolion yng Nghymru.

21. Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon.

Goblygiadau ariannol

22. Mae goblygiadau ariannol y Bil hwn yn parhau fel y'u nodwyd yn fy memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol. Mae'r asesiad effaith a osodwyd ar y cyd â'r Bil (yn Y Bil Iechyd Meddwl - cyhoeddiadau Tŷ'r Arglwyddi – Biliau Seneddol – Senedd y DU) yn cynnwys costau i Gymru a amcangyfrifwyd drwy gymhwyso'r costau cynnydd ar gyfer Lloegr. Mae costau ac arbedion costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr wedi'u codi, gydag effeithiau yn dibynnu ar y prosesau y mae'r diwygiadau yn gysylltiedig â hwy. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y cyfnod arfarnu 20 mlynedd o hyd yn £5.7 biliwn.
23. Bydd y gwaith gweithredu yn cael ei gyflwyno'n raddol ac ni rennir y costau yn gyfartal felly dros y cyfnod o 20 mlynedd. Yn yr asesiad effaith, amcangyfrifir bod cyfanswm y costau i Gymru dros y cyfnod o 20 mlynedd yn £425 miliwn ar draws y sectorau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.
24. Pe bai Senedd Cymru yn cydsynio i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol dilynol gan gynnwys yr un yma, byddai hyn ar sail cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU i gynnal y gwaith gweithredu fel yr amlinellir yn yr asesiad effaith a osodwyd gerbron Senedd y DU.

Casgliad

25. Yn fy marn i, mae'n briodol o hyd ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan Lywodraeth y DU gan y byddai hyn, yn unol â'n hymrwymiad i wella hawliau unigolion yng Nghymru, yn sicrhau system gydlynol o hawliau ledled Cymru a Lloegr ac yn ategu ein hamcanion polisi o ran strategaethau iechyd meddwl newydd.
26. Rwyf felly yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
30 Mehefin 2025